**Crist y Meddyg**
(o'r awdl 'Y Gwaredwr a'i Deyrnasiad')

Pob cur a dolur drwy'r daith – a wellheir
Yn llaw'r Meddyg perffaith;
Gwaed y groes a gwyd y graith
Na welir moni eilwaith.

***John Williams***

**Ail-groeshoelio'r Iesu**

Pwy fedrodd ynte guro'r hoelion hyn
I'w ddwylaw ac i'w draed diniwed Ef?
Dyn! Ie, dyn! A dyn yr awron sydd,
Ym Mhrydain, hyd yn oed yng Nghymru fach,
Yn ail gigyddio, 'n ail groeshoelio Crist!
Yr hoelion wthia trwy'r un briwiau coch,
Gan ymbleseru, a chwerthin am y boen
Achosa, a chan sathru dan ei droed –
Ie, sathru dan ei halog droed – y gwaed!...

***John Robert Pryse (Golyddan)***